Ni Bia' Addysg Uwch.

Adeiladu grym yn y gweithle

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Adeiladu grym yn y gweithle

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â'r dogfennau Adeiladu Aelodaeth ac Adeiladu Grym Gwleidyddol. Nod y canllaw hwn yw crynhoi ffyrdd y gall pob cangen o UCU adeiladu ar gefnogaeth a gweithgarwch yn lleol i ysgogi eich cefnogwyr craidd, ymgysylltu ag ymgyrchwyr newydd ac ehangu cyrhaeddiad ac effaith eich gwaith.

Adeiladu cysylltiadau

Mae angen i unrhyw ymgyrch lwyddiannus adeiladu sylfaen o gefnogwyr, gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr. Bydd rhwydweithiau helaeth eisoes ar waith gan ganghennau lleol. Rydym yn gofyn i bob cangen gofrestru ar gyfer ymgyrch *Ni Bia' Addysg* i gael diweddariadau am yr ymgyrch yn genedlaethol.

Yn hollbwysig, rydym yn gofyn i chi estyn y tu hwnt i'ch rhwydweithiau presennol ac annog pob aelod i gofrestru hefyd a gwirfoddoli i helpu i adeiladu'r ymgyrch yn eich gweithle.

Gall aelodau gofrestru drwy ymweld a **educationitsours.org.uk/join**

Byddwn hefyd yn darparu posteri a chymorth digidol i ganghennau i hyrwyddo pwysigrwydd adeiladu ein cronfa o gysylltiadau ar gyfer yr ymgyrch.

Adeiladu cronfa drefnu

Drwy holl gamau'r model ymgyrchu, byddwch yn meithrin y grym sydd ei angen i ennill. Y cam cyntaf i ddatblygu grym eich ymgyrch yw cysylltu â'ch cydweithwyr, cyd-aelodau, cynrychiolwyr neu swyddogion pwyllgor i ffurfio grŵp trefnu. Canolbwynt y grŵp trefnuhwn fydd pwyllgor eich cangen, ondmae angen i ni fynd gam ymhellach hefyd a chysylltu â'r aelodau ehangach.

Ym mis Rhagfyr, bydd UCU yn cynnal cyfres o weithdai trefnu. Diben y rhain yw eich cefnogi chi a grwpiau trefnu eraill yn eich rhanbarth.

Dylech anelu at **greu grŵp trefnu sydd â deg unigolyn o leiaf** a all fynychu'r gweithdai hyn.

Dyma rai pethau i'w hystyried wrth greu eich grwpiau trefnu.

- Dylech flaenoriaethu cydweithwyr y mae pobl yn gwrando arnynt ac sydd â dylanwad yn eich gweithle.

- Chwiliwch am bobl sydd ag amrywiaeth o gysylltiadau gwahanol yn y cymunedau o amgylch eich gweithle, boed hynny drwy glybiau chwaraeon, sefydliadau gwirfoddol, neu grwpiau ffydd.

- Ceisiwch ddod ag amrywiaeth o bobl ynghyd er mwyn i'ch grŵp trefnu elwa o amrywiaeth o sgiliau, safbwyntiau a chysylltiadau â chymunedau gwahanol a rhannau gwahanol o'r gweithle.

- Cysylltwch â phobl gan ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys sgyrsiau wyneb yn wyneb, e-bost, a grwpiau WhatsApp. Bydd eich gwybodaeth leol yn eich helpu i benderfynu ar y dull cyfathrebu gorau i chi.


UNITY IS STRENGTH
UCU
RESIST RACISM
UCU
UCU
OFFICIAL
DISPUTE
THE PAY GAP
FAIR PAY DOESN'T GO OUT OF STYLE
SAVE THE ARTS


UCU
College Union
Socialist Worker
Strike for education
Fight the #HEWhitePaper
London Region UCU • Fight for education
END THE GENDER PAY GAP
UCU
University and College Union

Adeiladu strategaeth a threfnu

Bydd tîm ymgyrchoedd UCU yn cynnal cyfres o weminarau i roi hyfforddiant a chymorth i chi wrth gyflwyno'r ymgyrch ar lawr gwlad. Rydym yn gwybod pa mor brysur ydych chi ac nid ydym am i chi gael eich llethu gan jargon a gwaith papur.

Bydd sesiynau'n ymdrin â thechnegau trefnu fel mapio pŵer, siartio, trefnu sgyrsiau, adeiladu strategaeth a mwy.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn benodol ar adeiladu pwysau gwleidyddol yn unol â'n canllaw lobïo.

Bydd recordiadau o'r gweminarau hyn yn cael eu lanlwytho'n uniongyrchol i wefan yr ymgyrch.



Ni Bia' Addysg

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Cynhyrchwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Carlow Street, London NW1 7LH